WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr S Phillips,
Prif Weithredwr,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot,
Y Ganolfan Ddinesig,
Port Talbot.
SA13 1PJ

| | |
|---|---|
| Cyfeirnod | 637A2013 |
| Dyddiad | 26 Tachwedd 2013 |
| Tudalennau | 1 o 2 |

Annwyl Mr Phillips

# Asesiad Gwella

Yn fy llythyr dyddiedig 2 Medi 2013, rhoddais fy marn ar ba un a oedd y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant.

Mae’n ofynnol i mi hefyd, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), roi barn ar ba un a yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

## Yn fy marn i, ac ar sail gwaith archwilio a wnaed hyd yma, mae’r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur, er bod yna botensial i gryfhau ei drefniadau ymhellach

Rwyf wedi dod i’r casgliad hwn oherwydd bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran:

- cymeradwyo a chyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol 2012-13 (yr Adroddiad) erbyn y dyddiad cau statudol ar 31 Hydref 2013; a chyhoeddi adroddiad cryno mewn ymateb i’n hadborth;
- cynnal darlun cytbwys o berfformiad, gan dynnu sylw at berfformiad llai ffafriol a pherfformiad sy’n gwella;
- cymharu ei berfformiad â data dangosyddion perfformiad rhwng 2010-11 a 2012-13; cymharu ei berfformiad â chyfartaledd Cymru trwy gyfeirio at y chwartel yng Nghymru; a darparu syniad o gyfeiriad y gwelliant a nodi meysydd sy’n peri pryder;
- ymateb i’n sylwadau yn llythyr y llynedd trwy ehangu’r dystiolaeth a ddefnyddir i gefnogi ei asesiad o berfformiad, gan ddefnyddio astudiaethau achos i adlewyrchu profiadau defnyddwyr gwasanaethau gan ddefnyddio data boddhad cwsmeriaid a chyfeirio at wybodaeth ariannol mewn perthynas â lefelau gwariant a buddsoddiad; ac
- esbonio’r sail resymegol y tu ôl i gydweithredu, gan gynnwys enghreifftiau o weithgareddau cydweithredol sy’n cefnogi darpariaeth blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Fodd bynnag, rwyf wedi nodi meysydd lle mae yna botensial i gryfhau trefniadau ymhellach trwy:

- esbonio'n gyson a yw'r cydweithredu wedi cyflawni'r canlyniadau bwriedig; ac
- esbonio yn yr Adroddiad sut mae'r Cyngor yn codi ymwybyddiaeth ymhlith dinasyddion a chymunedau fod yr Adroddiad ar gael.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Ni cheir cynigion newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor mewn perthynas â gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

Byddaf yn cyflawni gwaith manylach ar y trefniadau sy'n cefnogi gwaith adrodd a rheoli perfformiad y Cyngor dros y misoedd nesaf, ac yn cyflwyno adroddiad ar hyn, yn ogystal â chrynhoi fy holl waith a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2013-14, mewn Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer y Cyngor y byddaf yn ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth 2014.

Yn gywir,



**HUW VAUGHAN THOMAS**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copi: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Steve Barry – Rheolwr

Samantha Spruce – Arweinydd Archwilio Perfformiad